Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Casglu ystadegau presenoldeb a nodweddion personol oddi wrth ysgolion o fis Medi 2020 ymlaen

Rydym yn casglu ystod eang o ddata amdanoch yn flynyddol, ac eglurir hyn yn fanylach yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Oherwydd y pandemig Covid-19 ac ysgolion yn gorfod addasu i ffyrdd newydd o weithio, mae angen i ni allu casglu data presenoldeb yn amlach nag unwaith y flwyddyn. Bydd casglu'r wybodaeth ddiweddaraf yn ein cefnogi ac yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom i ddeall effaith pandemig Covid-19 ar bresenoldeb a sut y gallwn gefnogi ysgolion.

Pa mor aml ydyn ni'n casglu'r data hwn?

Byddwn yn cadw amlder y casglu dan adolygiad rheolaidd. I ddechrau, bydd y data'n cael ei gasglu bob wythnos ond efallai y bydd angen i ni gasglu'r data yn fwy aml.

Pa ddisgyblion ydym ni'n casglu data amdanynt?

Rydym yn casglu data am bob disgybl mewn ysgolion a gynhelir o fis Medi 2020 ymlaen.

Pa wybodaeth ydym ni'n ei chasglu?

Rydym yn casglu'r wybodaeth ganlynol amdanoch bob wythnos:

- Rhif unigryw'r disgybl (UPN)
- Enw cyntaf
- Enw(au) canol
- Cyfenw
- Rhywedd
- Dyddiad geni
- Cod post cartref
- Cefndir ethnig
- Cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim
- Anghenion dysgu ychwanegol
- Saesneg fel iaith ychwanegol
- Cod presenoldeb ar gyfer pob sesiwn hanner diwrnod yr wythnos honno

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pam ydym ni'n casglu'r wybodaeth hon?

Mae angen yr wybodaeth hon fel rhan allweddol o'n hymateb a chynllunio yn ystod y pandemig Covid-19 parhaol. Bydd y data'n cael ei gasglu'n rheolaidd i sicrhau bod y data diweddaraf ar gael i lywio ein hymateb. Byddwn yn defnyddio'r data at ddibenion ystadegol a gwaith ymchwil yn unig ac ni fydd unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud yn eich cylch yn defnyddio'r data hyn.

Sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon?

Byddwn yn defnyddio'r data yn yr un ffyrdd ag yr ydym wedi'u rhestru yn ein prif hysbysiad preifatrwydd

A fyddwn ni'n rhannu'r data?

Mae'n bosib byddwn yn rhannu'r data gyda'r sefydliadau yr ydym wedi'u rhestru yn ein prif hysbysiad preifatrwydd

Pa mor hir y byddwn yn cadw'r wybodaeth amdanoch?

Byddwn yn cadw'r data sy'n ei gwneud yn bosibl eich adnabod chi hyd nes y byddwch yn 25 oed.

Beth yw'r sylfaen gyfreithiol ar gyfer casglu'r data hwn?

Mae adran 538 o Ddeddf Addysg 1996 yn darparu'r sylfaen gyfreithiol ar gyfer casglu'r data hwn. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion wneud unrhyw adroddiadau a ffurflenni, a rhoi unrhyw wybodaeth, i Weinidogion Cymru y bydd eu hangen arnynt ar gyfer eu swyddogaethau mewn perthynas ag addysg.

Eich hawliau o dan y GDPR

Esbonnir eich hawliau yn llawn yn ein prif hysbysiad preifatrwydd.